Paratoi cyfarpar a systemau goleuo’n defnyddio batri

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud ag adnabod y gwahaniaethau rhwng goleuadau Cerrynt Eiledol (AC) a Cherrynt Uniongyrchol (DC), paratoi batris a gwefrwyr a defnyddio'r cyfarpar goleuo sy'n defnyddio batris.

Mae'r safon hon hefyd yn ymwneud â dewis gwahanol fathau o fatris, eu defnyddio a'u cadw'n ddiogel.

Mae'r safon hon ar gyfer y rheiny sy'n gweithio fel Technegwyr Golau, 'Best Boys' a Giaffars.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. dilyn rheoliadau iechyd a diogelwch wrth gyflawni'ch swydd, gan gynnwys defnyddio cyfarpar diogelu personol
2. cyfrifo'r llif cyfredol mewn cylchedau Cerrynt Uniongyrchol
3. gofalu nad ydy terfynellau cysylltiadau heb eu gorchuddio yn beryg
4. gwirio integredd y gwifriad ar wregysau batri
5. cysylltu gwrthdroyddion i systemau batri'n ddiogel
6. amcangyfrif oes defnydd batri wedi'i wefru'n llawn yn amodol ar y llwyth
7. marcio a labelu batris yn unol â statws eu gwefr
8. labelu, storio a symud batris yn unol â rheoliadau a chanllawiau iechyd a diogelwch perthnasol
9. gofalu caiff yr holl fatris eu gwefru yn eu tro a'u bod wedi'u marcio'n gywir pan gân nhw eu cyflwyno
10. gofalu caiff cyfarpar sy'n defnyddio batris eu defnyddio'n ddiogel

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. rheoliadau iechyd a diogelwch a sut mae'r rhain yn effeithio ar eich gwaith ac ymarferion diogelwch gan gynnwys defnyddio cyfarpar diogelu personol
2. y gwahaniaeth rhwng systemau pŵer Cerrynt Eiledol a Cherrynt Uniongyrchol
3.

y gwahaniaeth rhwng gwefru cyfres a gwefru paralel

1.
y peryglon a’r cyfyngiadau wrth ddefnyddio nwyddau batri gan gynnwys gwefru
2.
y paramedrau a'r cyfyngiadau gwefru yn ymwneud â nwyddau batri asid plwm, nicel-cadmiwm a lithiwm; ynghyd â'u cyfraddiadau
3. y problemau all godi yn sgil camddefnyddio polaredd neu ddefnyddio'r polaredd anghywir
4.

sut i drin colled asid batri a beth ddylid ei wneud i adfer y sefyllfa

1. sut i symud a chadw batris yn ddiogel
2. sut i gyflawni'r weithred orfodol o labelu batris a pham fod angen gwneud hynny
3. y dulliau diogel ar gyfer cael gwared ar fatris a'r gofynion yn ôl polisïau a gweithdrefnau amgylcheddol perthnasol
4. pwysigrwydd gofalu caiff yr holl fatris eu gwefru yn eu tro a sut i gyflawni'r broses
5. defnyddio cyfarpar sy'n defnyddio batris yn ddiogel

Paratoi cyfarpar a systemau goleuo’n defnyddio batri

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | ScreenSkills |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 30 Maw 2020 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Maw 2024 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | ScreenSkills |
| **RCU gwreiddiol** | SKSL5 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Y Cyfryngau a Chyhoeddi, Y Celfyddydau, Y Cyfryngau a chyfathrebu, Crefftau, y celfyddydau creadigol a dylunio, Y Celfyddydau Perfformio, Crefftau Medrus Heb eu Dosbarthu mewn Man Arall, Galwedigaethau â Chrefftau Medrus |
| **Cyfres/Set** | Goleuo ar gyfer Ffilm a Theledu |
| **Geiriau Allweddol** | gofynion pŵer; systemau batri, cylchedau; gosod; cyfarpar batri; cyfarpar diogelu personol; rheoliadau iechyd a diogelwch |